**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 13 Awst 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Bu P O'Connor (Cadeirydd Annibynnol) yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Helliwell | P R Hood-Williams |
| O G James | P K Jones | J W Jones |
| E T Kirchner | L V Walton | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwilydd |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid Dros Dro a Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol/Swyddog Monitro |
| Richard Rowlands | Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid/Swyddog Adran 151 |
| Amanda Thomas | Prif Gyfrifydd/Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Anthony Veale | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Williams | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorwyr: P M Black, M B Lewis ac S Pritchard

---

## 14 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd P R Hood-Williams - Cofnod rhif 21 a 22 - Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2018/19 ac Adroddiad Monitro Cynllun Blynyddol Archwiliad Mewnol 2019/20 ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill tan 30 Mehefin 2019 - Llywodraethwr Ysgol yn Ysgolion Cynradd Crwys a Chilâ - personol.

Paula O'Connor – yr Agenda yn ei chyfanrwydd - Gweithiwr cyflogedig gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre - yn darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel Pennaeth Archwilio Mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Personol.

Y Cynghorydd T M White - Cofnod rhif 16 - Datganiad o Gyfrifon Drafft 2018/19 - Dinas a Sir Abertawe - Aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, Aelod o Gwmni Gwaredu

Gwastraff yr Awdurdod Lleol (LAWDC) ac Aelod o Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe - personol.

**15 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2019 fel cofnod cywir.

**16 Datganiad o Gyfrifon Drafft 2018/19 - Dinas a Sir Abertawe.**

Cyflwynodd Ben Smith, Prif Swyddog Cyllid, y Datganiad o Gyfrifon Drafft ar gyfer 2018/19.

Paratowyd a llofnodwyd y Cyfrifon Drafft ar gyfer 2018/19 ar 20 Mai 2019. Darparwyd copi yn Atodiad A yr adroddiad. Diolchodd y Prif Swyddog Cyllid i'w dîm am ei waith caled.

Pwysleisiwyd y byddai adolygiadau bach i'r adroddiad i adlewyrchu'r datblygiadau parhaus o ran Brexit, y Fargen Ddinesig a dyfarniad pensiwn McCloud.

Amlygodd y Prif Swyddog Cyllid y canlynol o'r Datganiad o Gyfrifon: -

- Cafwyd gorwariant net ar wasanaethau unwaith eto ac nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir
- Mae'r cyngor wedi cymeradwyo newid yn y Polisi Darparu Lleiafswm Refeniw (DLlR), a helpodd i ostwng ffioedd ad-dalu yn y tymor byr i ganolig
- Gwariant cyfalaf yn 2018/2019
- Ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm gweddill refeniw wrth gefn yr awdurdod oedd £83.178m
- Rhagolwg ariannol ar gyfer yr awdurdod - mae angen parhau i arbed mwy o arian
- Dadansoddiad gwariant ac ariannu - nodi'r holl weithgareddau a chostau gwasanaethau
- Datganiad newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn - roedd cyfanswm yr arian wrth gefn wedi gostwng yn bennaf oherwydd y gronfa wrth gefn dechnegol sy'n ymwneud â phensiynau a rhagwelir y byddai hyn yn gwaethygu. Cafwyd cynnydd yn yr arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio
- Buddsoddiadau Tymor Byr - cafwyd cynnydd yn y buddsoddiadau tymor byr o £25,500 (mil) yn 2018 i £121,772 (mil) yn 2019
- Roedd £100 miliwn yn cael ei gadw cyn gwario ar y Rhaglen Gyfalaf
- Datganiad Llif Arian
- Newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd
- Costau cydnabyddiaeth a chostau gadael swyddogion trwy gynllun colli swyddi'n wirfoddol
- Incwm grantiau
- Rhwymedigaethau amodol - yn enwedig y rhai na wyddys eu heffaith
- Cyfrif Refeniw Tai

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau mewn perthynas â Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop; gwariant/gorwariant; ad-dalu cyfalaf, Polisi DLlR a benthyca ychwanegol

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Prif Swyddog Cyllid a'i dîm am y cyfrifon cynhwysfawr.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**17 Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.**

a **Dinas a Sir Abertawe - Ymholiadau Archwilio i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu a Rheoli.**

Cyflwynodd David Williams ac Anthony Veale, Swyddfa Archwilio Cymru, ohebiaeth ynghylch ymholiadau archwiliad i'r rhai â chyfrifoldeb am lywodraethu a rheoli.

b **Adroddiad Drafft ISA 260.**

Cyflwynodd David Williams ac Anthony Veale, Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad am 'Adroddiad am Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol - Dinas a Sir Abertawe 2018/19' lle tynnwyd sylw at y canlynol: -

- Roedd yr adroddiad yn nodi barn gadarnhaol yn gyffredinol
- Ymagwedd at yr archwiliad
- Perthnasedd wedi'i osod ar £8.6 miliwn ar gyfer Dinas a Sir Abertawe
- Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260
- Darperir adroddiad ar wahân mewn perthynas â'r Gronfa Pensiwn ac adroddir am hwnnw i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn
- Statws yr Archwiliad - roedd rhai materion heb eu datrys a chafwyd gohebiaeth barhaus gan etholwr. Nid oedd modd cymeradwyo'r adroddiad nes bod yr ohebiaeth yn dod i ben
- Nodwyd Llythyr Sylwadau yn Atodiad 1 - disgwylir y byddai'n cael ei lofnodi'n dilyn cyfarfod y cyngor ar 29 Awst 2019
- Amlinellodd Atodiad 3 yr adroddiad grynodeb o'r materion y mae angen eu cywiro
- Atebolrwydd Pensiwn Ychwanegol - effaith dyfarniad McCloud ar gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus
- Amlinellodd Atodiad 4 yr adroddiad yr argymhellion sy'n deillio o archwiliad ariannol 2018/19 - cynigiwyd tri argymhelliad a derbyniwyd ymatebion

Cyflwynir yr adroddiad terfynol i'r Cyngor ar 29 Awst 2019.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn hapus gyda chynnwys yr ISA 260 a gofynnodd i drosglwyddo'r argymhellion a wnaed i adroddiad olrhain allanol ar gyfer y Pwyllgor.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 18 Trosolwg o'r Statws Risgiau Cyffredinol ar gyfer Chwarter 1 2019/20. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno Strategol a Pherfformiad, adroddiad 'Trosolwg o'r Statws Risgiau Cyffredinol ar gyfer Chwarter 1 2019/20’. Atodwyd crynodeb o statws risg cyffredinol y cyngor ar gyfer Chwarter 1 2019/20 yn Atodiad A.

Adroddwyd bod 97.4% o'r risgiau a nodwyd yn Chwarter 4 2018/19 wedi'u nodi fel risgiau a adolygwyd yn ystod Chwarter 1 2019/20. Roedd hynny'n welliant ar y sefyllfa yn Chwarter 4 2018/19 lle derbyniwyd 85.6% o risgiau ers Chwarter 3 2018/19.

Cofnodwyd rhesymau dros/sylwadau am y 25 o'r 28 o risgiau (89.3%) a gaewyd, o'u cymharu â 18% yn Chwarter 4 2018/19.

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o Risgiau Corfforaethol ym mis Mai 2019 a nodwyd risg strategol newydd ar gyfer y Gofrestr Risgiau Corfforaethol o ran gallu'r isadeiledd priffyrdd a thrafnidiaeth i fodloni galw'r dyfodol.

Atodwyd Adroddiad Cofrestr Risgiau Corfforaethol 11/07/19 yn Atodiad B. Amlygwyd Risg Gorfforaethol 81: Canol y Ddinas a Risg Gorfforaethol 90: Penderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd (BREXIT).

Atodwyd Adroddiad Cofrestr Risgiau Corfforaethol 11/07/19 yn Atodiad C.

Adroddwyd bod y gwaith yn parhau mewn perthynas â datblygu Ap Cofrestr Risgiau.

Nododd y Cadeirydd fod ganddi rai pryderon ynghylch cynnwys y gofrestr risgiau. Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ynglŷn â'r risgiau nas adolygwyd yn ystod Chwarter 1 ac ystyr 'Risg Wedi'i Newid'. Nodwyd y jargon/talfyriadau hefyd a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad yn ogystal â'r risgiau hynny a gaewyd heb reswm wedi'i gofnodi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol a'i dîm am eu gwaith caled a'u hymdrech wrth gyflwyno'r gwaith hwn.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 19 Alldro Ariannol Refeniw 2018/19 (Er gwybodaeth)

Darparodd Ben Smith, Prif Swyddog Cyllid, adroddiad am 'Alldro Ariannol Refeniw 2018/19'.

Tynnodd sylw'n benodol ar orwariant arall mewn perthynas â gwasanaethau na ellid eu cynnal yn y tymor hir.

Trafododd y pwyllgor y sefyllfa/cam gweithredu posib o ran gorwariant parhaus ar wasanaethau. Gosodwyd tasg benodol i Gyfarwyddwyr sef dangos eu holl gynlluniau

gweithredu llawn i'r pwyllgor, gan fanylu ar sut maent yn bwriadu cyflwyno arbedion credadwy i ailgydbwyso'r gyllideb fel mater brys.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch cyfalafu, y gronfa wrth gefn ac arian wrth gefn.

**Penderfynwyd** y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'n rhoi gwybod i'r cyngor am y pryderon ynghylch gorwariant a'r angen i gyfarwyddwyr ddangos cynlluniau cyflwyno llawn mewn perthynas ag arbedion.

## 20 Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft.

Cyflwynodd Tracey Meredith, y Prif Swyddog Cyfreithiol, yr adroddiad 'Datganiad Llywodraethu Drafft 2018/19' ac amlygodd egwyddorion 'Fframwaith ar gyfer Cyflwyno Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016' a sefydlwyd gan CIPFA a SOLACE.

Seiliwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar nifer o ffynonellau sicrwydd, yn fewnol ac yn allanol.

- **Ffynonellau Sicrwydd Mewnol**
  Cafwyd diwygiadau i Ddatganiadau Sicrwydd yr Uwch-reolwyr. Dangosodd y datganiadau sicrwydd y gweithredir llywodraethu da 'mewn modd cadarn' ar draws yr holl feysydd sicrwydd yn gyffredinol.
  Nodwyd yr aeddfedrwydd gorau ym maes monitro cyllidebau, a nodwyd bod yr asesiad o aeddfedrwydd gwaethaf ym maes mesur a rheoli perfformiad.
  Cafwyd sicrwydd hefyd o'r tystiolaeth graidd a gafwyd gan y cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau, y Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151 a'r Prif Archwilydd Mewnol ac mae angen i farn y Pwyllgor Archwilio gael ei darparu.

- **Ffynonellau Sicrwydd Allanol** - Archwilwyr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru), Rheoliad/Arolygiadau Allanol ac Arolygiadau Statudol.

Amlygodd y Prif Swyddog Cyfreithiol hefyd y materion llywodraethu arwyddocaol a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad o effeithiolrwydd yn ogystal â'r camau gweithredu a gymerwyd.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau ynghylch Egwyddorion B ac F, Datganiadau Sicrwydd yr Uwch-reolwyr a sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan gynnwys cwmpas y sylwadau hynny fel arsylwr.

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r pwyllgor at y diffyg cysylltiad posib rhwng y meysydd hynny y nodwyd eu bod yn cael sgôr uchel yn yr hunanasesiad gan yr Uwch-reolwyr a phryderon y pwyllgor a fynegwyd trwy gydol y flwyddyn, yn enwedig ynghylch gorwario ar wasanaethau (ac felly'r diffyg rheolaeth gyllidebol) ac aeddfedrwydd a chywirdeb yr ymagwedd at reoli risgiau.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**21 Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2018/19.**

Cyflwynodd Simon Cockings, y Prif Archwilydd, adroddiad sy'n amlinellu ac yn adolygu gwaith yr Adran Archwilio Mewnol yn ystod 2018/19 ac sy'n cynnwys barn ofynnol y Prif Archwilydd am yr amgylchedd rheoli mewnol ar gyfer 2018/19 yn seiliedig ar y profion archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Amlinellodd a manylodd ar gynnwys yr adroddiad, gan gynnwys y meysydd allweddol canlynol:

- Materion Staffio
- Cwblhawyd 87% o archwiliadau o leiaf at y cam adroddiad drafft yn ystod y flwyddyn, ac roedd 5 archwiliad arall ar waith
- Amlinellwyd yr amser a dreulir ar bob maes yn Atodiad 1
- Amlinellwyd yr archwiliadau a gwblhawyd yn ystod 2018/19 yn llawn yn Atodiad 2
- Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd 99% o'r argymhellion a wnaed gan gleientiaid
- Grantiau a ardystiwyd ac a archwiliwyd yn 2018/19
- Archwiliadau dilynol a gynhaliwyd
- Dangosyddion Perfformiad - cyflawnwyd 10 allan o 11 o ddangosyddion, sy'n dangos gwelliant ar 2017/18. Amlinellwyd y rhain yn llawn yn Atodiad 3
- Sicrhau Ansawdd a Rhaglen Gwella a Datganiad Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus
- Datganiad o Annibyniaeth Sefydliadau
- Barn am Reoli Mewnol

Nododd yn swyddogol ei fod am ddiolch i'w dîm am eu gwaith ardderchog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau ynghylch hyfforddiant, gosod targedau cyraeddadwy, a dangosyddion perfformiad y gellir eu cymharu, yn enwedig gydag awdurdodau nad ydynt yn defnyddio dangosyddion perfformiad.

**Penderfynwyd** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi a'i gymeradwyo.

**22 Cynllun Blynyddol Archwiliad Mewnol 2019/20 - Adroddiad Monitro ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2019 i 30 Mehefin 2019**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

**23 Adroddiad Dilynol ar Radd Gymedrol yr Archwiliad Mewnol - Gwasanaethau Pobl Ifanc 2019/20 (Llafar)**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

**24 Adroddiad Dilynol Argymhellion Archwilio Mewnol Chwarter 1 2019/20.**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

**25 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio. (Er gwybodaeth)**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

**26 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)**

Gohiriwyd yr eitem hon ond cafwyd trafodaeth ynghylch pryderon y pwyllgorau am hyd yr agenda. Trafododd y pwyllgor ohirio eitemau nad ydynt yn rhai brys (gan gynnwys eitemau 10-15 yr agenda) tan fis Medi a chyfarfod yn fwy cyson er mwyn osgoi cael agenda mor hir yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** gohirio eitemau 10-15.

**27 Adroddiadau Craffu/Swyddfa Archwilio Cymru (Er gwybodaeth):**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

a **Cynnydd o ran Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Chomisiynu Gwasanaethau Llety ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol. (Er gwybodaeth) (For Information)**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

b **Cynnydd wrth roi Argymhellion Adroddiad Addasiadau Tai yng Nghymru Swyddfa Archwilio Cymru ar waith (Er gwybodaeth)**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

c **Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru - Gwasanaethau Llywodraeth Leol Cymunedau Gwledig. (Er gwybodaeth.)**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

d **Gwasanaethau Llywodraeth Leol Cymunedau Gwledig. (Er gwybodaeth)**

Gohiriwyd yr eitem hon fel a nodwyd yng Nghofnod 26.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.00 pm

**Cadeirydd**